YR ATODLEN

# RHAN 1

## Yr wybodaeth sydd i'w chyflenwi gan gyflogwr perthnasol

**1.** Datganiad o'r rhesymau dros roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person.

**2.** Cofnodion y cyflogwr ynglŷn â rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu ag unrhyw bryd yr ystyriwyd rhoi'r gorau i wneud hynny, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan y cyflogwr.

**3.** Cofnodion y cyflogwr ynglŷn â'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu a allai, oni bai bod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain y cyflogwr i roi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan y cyflogwr.

**4.** Llythyrau, rhybuddion neu hysbysiadau gan y cyflogwr a ddyroddwyd i berson mewn perthynas â rhoi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau neu ag unrhyw bryd yr ystyriwyd rhoi'r gorau i wneud hynny, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu a allai, oni bai bod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain y cyflogwr i roi'r gorau i ddefnyddio'i wasanaethau, ac atebion neu gynrychioliadau'r person mewn perthynas â hynny.

**5.** Unrhyw ddatganiadau eraill, cynrychioliadau eraill a thystiolaeth arall a gyflwynwyd gan berson i'r cyflogwr mewn perthynas â rhoi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau neu ag unrhyw bryd yr ystyriwyd rhoi'r gorau i wneud hynny, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu a allai, oni bai bod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain y cyflogwr i roi'r gorau i ddefnyddio'i wasanaethau.

**6.** Llythyr yn hysbysu o fwriad person i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau.

**7.** Unrhyw ddogfen arall neu wybodaeth arall y mae'r cyflogwr yn ystyried yn berthnasol i unrhyw ymchwiliad a allai gael ei gynnal gan Bwyllgor Ymchwilio neu unrhyw achos a allai gael ei ddwyn gan Bwyllgor yn erbyn athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig.